

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Heb eu cadarnhau

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar
23 Mehefin 2021 am 12.45pm drwy Zoom**

Yn bresennol

Emma Woollett	Cadeirydd
Mark Hackett	Prif Weithredwr
Steve Spill	Is-gadeirydd
Christine Morrell	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Therapiau a Gwyddor Iechyd
Christine Williams	Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Nyrsio a Phrofiad y Claf
Darren Griffiths	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
Jackie Davies	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd
Kathryn Jones	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Keith Lloyd	Aelod Annibynnol
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Maggie Berry	Aelod Annibynnol
Mark Child	Aelod Annibynnol
Martyn Waygood	Aelod Annibynnol
Reena Owen	Aelod Annibynnol
Richard Evans	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Tom Crick	Aelod Annibynnol
Nuria Zolle	Aelod Annibynnol

Hefyd yn bresennol:

Hannah Evans	Cyfarwyddwr Trawsnewid
Joanne Abbott-Davies	Cyfarwyddwr Strategaeth
Mwoyo Makuto	Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe
Rab McEwan	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
Sue Evans	Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe
Liz Stauber	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol
Karen Stapleton	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth (ar gyfer cofnod 146/21)

Rhif Cofnod		Cam gweithredu
143/21	CROESO AC YMDDIHEURIADAU	
	Croesawodd Emma Woollett bawb i'r cyfarfod a nododd mai dyma'r un olaf i Kathryn Jones cyn dechrau yn ei swydd gyda sefydliad	

	newydd. Diolchodd i Kathryn Jones am ei hymroddiad a'i hymrwymiad ac am gamu i fyny fel Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar ddau achlysur. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan Siân Harrop-Griffiths, y Cyfarwyddwr Strategaeth a Matt John, y Cyfarwyddwr Digidol.	
144/21	DATGAN BUDDIANNAU	
	Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau	
145/21	MATERION YN CODI	
	Ni chodwyd unrhyw faterion nad oeddent ar yr agenda.	
146/21	CYNLLUN BLYNYDDOL 2021-22	
	Derbyniwyd cynllun blynyddol 2021-22 ar gyfer ei gymeradwyo. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Mark Hackett a Karen Stapleton y pwyntiau canlynol: - Roedd y cynllun blynyddol yn canolbwyntio ar set o nodau allweddol: • Gwella ansawdd y gwasanaethau; • Gwella profiad staff; • Trawsnewid gofal sylfaenol a chymunedol; • Adnewyddu gwasanaethau eilaidd; • Gwella'r sefyllfa ariannol; - Roedd hefyd yn dwyn ynghyd yr hyn yr oedd y Bwrdd wedi gofyn amdano, yn cynnwys ychwanegu iechyd y boblogaeth fel un o'r amcanion; - Byddai cyflwyno'r cynllun yn cefnogi datblygiadau mewn gofal brys ac argyfwng, y gweithlu ac ansawdd; - Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch adnoddau ychwanegol i alluogi gwelliannau cynaliadwy pellach;	

- Derbyniwyd £16m o arian ychwanegol i adfer gofal wedi'i gynllunio, a fyddai'n cefnogi gwasanaethau diagnostig a dewisol i leihau rhestrau aros hir;
- Ers i'r Bwrdd ystyried y cynllun ym mis Mawrth 2021, roedd y nod, y dull a'r canlyniadau wedi'u mireinio ymhellach a rhoddwyd ffocws ar gyflawni, gan ystyried adborth Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd;
- Gweithredu'r cynllun oedd y cam nesaf a byddai hyn yn cael ei symud ymlaen trwy fyrdau rhaglenni ar gyfer y gwahanol feysydd blaenoriaeth, megis gofal wedi'i gynllunio a gofal brys ac argyfwng;
- Byddai fersiwn gyntaf yr adroddiad cynnydd yn cael ei dderbyn gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021;
- Roedd clinigwyr wedi helpu i lywio'r ffordd ymlaen a byddent ynghlwm wrth ei weithredu;
- Trefnwyd sesiwn Bwrdd ar weithredu'r cynllun ar gyfer Gorffennaf 2021, a fyddai'n gyfle i aelodau annibynnol roi adborth ar feysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach;
- Byddai adroddiadau at wraidd materion yn cael eu cynnal ar feysydd allweddol yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cancer, gofal brys ac argyfwng a gofal wedi'i gynllunio, er mwyn i'r cynlluniau gweithredu gael eu cynhyrchu ar y cyd.

Wrth drafod yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Gofynnodd Emma Woollett am gadarnhad bod y setiau data sylfaenol wedi'u cwblhau. Cadarnhaodd Karen Stapleton iddynt gael eu cwblhau a bod gan y bwrdd iechyd un o'r cyfraddau cwblhau uchaf ar gyfer y camau cychwynnol.

Dywedodd Darren Griffiths fod y cynllun ariannol yn rhagfynegi diffyg o £24m ar gyfer diwedd y flwyddyn, yn hytrach na sefyllfa o faintoli'r gyllideb, er mwyn darparu cynaliadwyedd i gefnogi'r cynllun adfer. Roedd hwn yn gam cadarn ymlaen o ran yr uchelgais ar gyfer arbedion a newid, tra bod gwaith yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru i symud tuag at adennill costau.

Nododd Martyn Waygood fod y cynllun yn cyfeirio at ddau fis anodd o safbwynt gweithredol, sef yn gynnar yn 2022, pan efallai y bydd angen lleihau gwasanaethau dewisol. Ymatebodd Rab McEwan y byddai cyfradd brosesu'r rhaglen ar gyfer gwasanaethau dewisol yn cael ei chynyddu cymaint â phosibl o fewn cyfyngiadau'r pandemig. Roedd y cynllun yn nodi newidiadau a'r bwriad i drosglwyddo gwasanaethau i ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Singleton. Roedd hyn er mwyn galluogi Ysbyty Treforys i fod yn ysbyty Covid-

	19, tra byddai'r ddau arall yn 'llwybrau gwyrdd', er mwyn gallu gwneud cymaint o waith â phosibl mewn perthynas â gofal wedi'i gynllunio. Canolbwyntiwyd ar ddychwelyd cynifer o wasanaethau â phosibl i'r sefyllfa fel ag yr oedd cyn Covid, neu wella ar hynny. Gofynnodd Nuria Zolle am sicrwydd y byddai ymgynghori'n digwydd â'r Bwrdd pe bai unrhyw angen i leihau gwasanaethau dewisol oherwydd pwysau gweithredol. Darparodd Mark Hackett y sicrwydd hwn, gan ychwanegu y byddai cynigion ynghylch sut i reoli gwasanaethau yn ystod cyfnod y gaeaf yn cael eu rhannu yn ystod y drafodaeth gan swyddogion gweithredol ym mis Gorffennaf 2021, ynghyd â chrynodeb o'r cynnydd wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Tynnodd Martyn Waygood sylw at y trywyddau gwella ar gyfer heintiau sy'n cael eu dal wrth dderbyn gofal iechyd, a holodd a oeddent yn ddigon uchelgeisiol. Dywedodd Christine Williams ei bod yn bwysig bod y targedau'n realistig ac yn gyraeddadwy ond roedd y bwrdd iechyd yn aros am drywyddau gwella Llywodraeth Cymru. Ar ôl eu derbyn, byddent yn cael eu defnyddio i adolygu'r rhai sydd yn y cynllun blynyddol. Dros y 12 mis diwethaf, rhoddwyd ffocws ar atal a rheoli heintiau a byddai'n bwysig i'r gostyngiad parhaus mewn achosion fod yn amlwg er mwyn cynnal y gwelliant mewn perfformiad. Ychwanegodd Richard Evans y dylid ystyried y targedau yn y cynllun fel isafbwynt ond ei bod yn bwysig cofio eu bod yn canolbwyntio ar heintiau sy'n cael eu dal wrth dderbyn gofal iechyd. Y broblem fwyaf yw lefel y gwrthfotigau sy'n cael eu rhagnodi yn y gymuned, sy'n arwain at niferoedd uchel o heintiau y tu hwnt i'r ysbytai, ac mae angen newid y system yn sylweddol er mwyn mynd i'r afael â hyn. Dywedodd Reena Owen ei bod yn braf gweld iechyd y boblogaeth yn cael ei gynnwys yn y cynllun. Gofynnodd a fyddai canlyniadau penodol, ac os felly, sut y byddai'r rhain yn cael eu mesur. Dywedodd Keith Reid y byddai dangosyddion allweddol ar gyfer iechyd y boblogaeth ac y gellid eu monitro er mwyn gweld y cynnydd. Er mwyn cyflawni'r rhain, roedd angen ymgysylltu â chymunedau i'w cefnogi i wella eu hiechyd a'u lles. Ni fyddai'n bosib i'r bwrdd iechyd lwyddo'n llawn ar ei liwt ei hun, a byddai'n hollbwysig gweithio mewn partneriaeth. Ychwanegodd Darren Griffiths fod gwaith yn dechrau ar y ffordd orau i ailddyrannu cyllideb £1.1bn y bwrdd iechyd er mwyn dosbarthu adnoddau mewn ffordd well i gefnogi iechyd y boblogaeth. Holodd Reena Owen a oedd y cynllun blynyddol yn gosod y cyd-destun ar gyfer y cynllun adfer a chynaliadwyedd. Cadarnhaodd Karen Stapleton mai hon oedd blwyddyn gyntaf y cynllun tair i bum mlynedd.	
--	---	--

	Dywedodd Emma Woollett fod cymeradwyo'r cynllun blynyddol yn garreg filltir bwysig a bod angen canolbwyntio nawr ar ei gyflawni. Diolchodd i bawb a fu'n ymwneud â'i ddatblygu, o safbwynt clinigol ac yn gorfforaethol.	
Penderfyniad	- Dylid nodi'r adroddiad; - Cymeradwyo'r cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 25 Mehefin 2021; - Cymeradwyo cau Ysbyty Maes y Bae.	
147/21	ACHOS BUSNES AR GYFER Y SGANIWR PET	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r achos busnes dros sganiwr PET (tomograffeg allyrru positronau). Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Christine Morrell y pwyntiau canlynol: - Mae mynediad at sganio PET wedi bod yn her neilltuol ledled GIG Cymru ers nifer o flynyddoedd; - Ar hyn o bryd ceir gwasanaeth pum niwrnod trwy sganiwr sefydlog yng Nghaerdydd a sganwyr symudol yn Abertawe a Wrecsam; - Roedd Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn arwain darn o waith i ddisodli'r rhain â sganwyr sefydlog newydd er mwyn cynyddu'r capasiti ledled Cymru; - Nodwyd achos busnes y rhaglen yn yr adroddiad er mwyn ei gymeradwyo ac fe'i cefnogwyd gan fwrdd y rhaglen ganser gan y byddai hyn yn gam mawr ymlaen i'w wasanaethau; - Roedd y bwrdd iechyd mewn trafodaethau gyda WHSSC i benderfynu a ellid dwyn ei amserlenni ymlaen.	
Penderfyniad:	- Cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer cael sganiwr PET/CT (tomograffeg gyfrifiadurol) i Gymru gyfan. Dylid nodi y byddai'r incwm a fyddai'n cael ei dderbyn ar gyfer y datblygiad yn talu'n llawn am yr holl gostau o weithredu'r gwasanaeth; - Cefnogi penderfyniad y Grŵp Gweithredol Cydweithredol; - Cefnogi gwasanaeth PET/CT statig yn Ysbyty Singleton; - Argymhell bod yr achos busnes yn cael ei gymeradwyo.	

148/21	TREFNIADAU AR GYFER YMGYNGHORI YNGHYLCH GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL POBL HŶN	
	Derbyniwyd adroddiad yn nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgynghori ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn. Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlygodd Joanne Abbott-Davies y pwyntiau canlynol: - Roedd y trefniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn wedi bod yn destun trafodaethau i glinigwyr iechyd meddwl, sefydliadau partner a thimau cynllunio ac ymgysylltu'r bwrdd iechyd ers peth amser; - Roedd gwasanaethau yn y gymuned, a oedd wedi derbyn buddsoddiad o £1.5m ychydig flynyddoedd yn ôl, bellach yn dwyn ffrwyth, gan arwain at lai o angen i ddefnyddwyr gwasanaethau gael gwelyau fel cleifion mewnol; - Roedd gan y bwrdd iechyd nifer uwch na'r cyfartaledd o welyau cleifion mewnol ar gyfer y grŵp cleifion hwn, o'i gymharu â gweddill y DU; - Datblygwyd set o gynigion i unioni'r cydbwysedd rhwng gofal cleifion mewnol a gofal cymunedol; - Byddai'r rhain yn lleihau nifer y gwelyau a'r safleoedd cleifion mewnol er mwyn cryfhau adnoddau staff a gwneud y gwasanaethau'n fwy cynaliadwy; - Byddai un gwasanaeth integredig yn cael ei greu, a fyddai'n cael ei reoli trwy ysbytai Cefn Coed a Tonna, gan ryddhau'r capasiti ar safle Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu gwasanaethau orthopedig; - Byddai rhan o'r gwaith yn cynnwys adnewyddu cyfleusterau yn Ysbyty Tonna gan nad oeddent wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda dementia; - Byddai'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai hyn yn cychwyn ar 5 Gorffennaf 2021 ac yn para tan 12 Medi 2021; - Roedd y Cyngor Iechyd Cymuned wedi ystyried a chytuno ar y dogfennau ymgysylltu. Wrth drafod yr adroddiad, cadarnhaodd Sue Evans fod aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi ystyried a derbyn y cynigion.	

Penderfyniad:	- Dylid nodi’r adroddiad. - Cytuno ar y ddogfen ymgysylltu ddrafft ar gyfer y newidiadau arfaethedig i wasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn; - Cytuno ar yr asesiad drafft o’r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â’r newidiadau arfaethedig hyn; - Cytunwyd y dylai’r ymgysylltiad cyhoeddus ffurfiol ar y cynigion hyn ddechrau o 5 Gorffennaf 2021 am gyfnod o 10 wythnos, yn unol â’r hyn a gytunwyd gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned.	
149/21	UNRHYW FATER ARALL	
	Ni chafwyd unrhyw fusnes pellach a daethpwyd â’r cyfarfod i ben.	
150/21	DYDDIAD CYFARFOD NESAF Y BWRDD	
	Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 29 Gorffennaf 2021	